# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 26 Mehefin 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams.

Roedd yr Aelod Arweiniol y Cynghorydd Eryl Williams yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn bresennol fel arsylwr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (SP), Pennaeth Addysg a Chwsmeriaid (JW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Adran: Rheolwr Rhwydwaith (TT), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (SA), Rheolwr Arlwyo (IK) a (HJ), Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr (AHJ), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Win Mullen-James a/ac Huw Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nid oedd yr un o'r Aelodau yn datgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gyda'r materion a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau, 15 Mai 2014.

Materion yn codi:-

8. Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol – mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P.A. Evans, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a

Chymunedol cytunwyd i roi manylion am amserlenni sy'n ymwneud â chymeradwyaeth y protocol drafft gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

9. Rheoleiddio Safleoedd Carafannau yn Well - Cytunodd y Cydlynydd Craffu i geisio eglurhad ynghylch y dyddiad gweithredu 1 Hydref, 2014 y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNIGION Y DYFODOL

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogi Addysg (HCES), a oedd yn adolygu cynnydd o ran gweithredu'r Rhaglen, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Yr Atodiad i'r adroddiad oedd y rhaglen ariannol ddrafft ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach. Roedd hyn yn egluro Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor ynghyd ag opsiynau ar gyfer buddsoddi ehangach.

Esboniodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg (LME) bod y Cyngor yn datblygu rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi yn ystâd yr ysgol, ac y byddai'r cynnig yn cefnogi'r Flaenoriaeth Gorfforaethol o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

Roedd yr LME a'r HCES yn manylu ar y cefndir i'r Rhaglen a phob prosiect ysgol a restrwyd. Roeddent yn pwysleisio, er bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi newid y gymhareb ariannu o 70% LlC a 30% Awdurdod Lleol i 50:50 ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, roedd Sir Ddinbych wedi gallu ariannu'r dosraniad ychwanegol drwy reolaeth ariannol craff a thrwy reoli disgwyliadau ar gyfer pob prosiect unigol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod cynigion ynghylch sefydlu ysgol uwchradd ffydd newydd ar y cyd yn y Sir yn debygol o gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr hydref. Er bod y broblem o leoedd gwag mewn ysgolion yn ne'r Sir yn derbyn sylw trwy nifer o adolygiadau ardal, roedd rhagamcanion cyfredol yn nodi y byddai prinder lleoedd mewn ysgolion cynradd yn ardal y Rhyl yn y dyfodol. O ganlyniad, roedd cyfarfod wedi'i drefnu rhwng yr LME, swyddogion a phenaethiaid cynradd yn ardal y Rhyl i drafod atebion posibl.

Gofynnodd Dr Marjoram i Ysgol Plas Brondyffryn beidio cael ei gadael allan o unrhyw gynigion yn y dyfodol o dan y Rhaglen, gan y byddai Ysgol Tir Morfa yn elwa'n fawr drwy fod yn rhan o Brosiect Ailddatblygu Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau mewn perthynas â risgiau posibl i'r prosiectau o e.e. gostyngiad pellach mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru neu newidiadau mewn caniatâd cynllunio, pwysleisiodd yr LME a'r HCES fod yna risgiau gyda phob prosiect a bod yn rhaid i bob risg gael ei reoli'n briodol.
Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â'r risg i'r Rhaglen os bydd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn gwrthdroi penderfyniad y Cabinet i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd, yr amserlen ar gyfer yr ysgol gynradd newydd

arfaethedig ar gyfer Rhuthun a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â ffedereiddio Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn a'u categoreiddio iaith. Cafwyd ymatebion i'r cwestiynau hyn yn rhoi gwybod i'r Aelodau y rhagwelwyd y byddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn Rhuthun o fewn y pum mlynedd nesaf, roedd ffederasiwn Llanfair DC a Phentrecelyn bellach wedi'i gytuno mewn egwyddor a byddai'r penderfyniad ar gategoreiddio iaith yr ysgol newydd yn cael eu cymryd ar sail y canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer y disgyblion h.y. y byddent yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn 11 oed. Byddai categoreiddio iaith yn ffurfio rhan o'r Achos Busnes ar gyfer yr ysgol. Eglurwyd nad oedd y penderfyniad yn yr arfaeth gan y Gweinidog mewn perthynas â Llanbedr DC yn peri risg sylweddol, gan y byddai'r Awdurdod ond yn sylweddoli arbedion refeniw o gau'r ysgol gan nad oedd y Cyngor yn berchen ar yr ased ei hun.

I gyflwyno Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif cyfan, fel y manylir yn yr adroddiad, byddai angen i'r Cyngor gyfrannu cyllid o £24,414,684. Cyfanswm cost y Rhaglen yw £51,283,196 gyda gweddill y gost yn dibynnu ar gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Byddai gofyn i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf gymeradwyo ymrwymiad ariannol y Cyngor i gyflwyno'r Rhaglen.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yna nifer o risgiau sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd ar lefel rhaglen gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg, a byddai pob prosiect unigol yn cynnwys gweithdrefnau rheoli risg.

***PENDERFYNWYD*** *- yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, ac yn amodol ar y manylion a fyddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 29 Gorffennaf, 2014, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio cyfleusterau addysg ar draws y Sir.*

## 6 DARPARIAETH GWASANAETHAU DYDD YNG NGOGLEDD SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr (RhGBG) yr adroddiad oedd yn manylu ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal dydd ar gyfer preswylwyr oedrannus yng Ngogledd y Sir ddeuddeg mis ar ôl i'r gwasanaeth gael ei ailfodelu. Eglurodd er bod y cynigion yn ymwneud yn bennaf â'r newidiadau yng Ngogledd Sir Ddinbych, dywedodd am y bwriad i roi'r egwyddorion strategol ategol ar waith i hyrwyddo annibyniaeth pobl trwy ail-alluogi a'r defnydd o adnoddau cymunedol ar draws y Sir.

Roedd y rhesymau dros adolygu gwasanaethau dydd yng ngogledd y Sir wedi eu manylu yn yr adroddiad. Roeddent yn ffurfio rhan o ddull ehangach sy'n ystyried pwysigrwydd atal, ymyrraeth gynnar a chydnabod gyda phoblogaeth sy'n heneiddio y bydd gan rai pobl anghenion gofal cymhleth, tymor hir sy'n gofyn am ddulliau ymatebol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ymatebodd y RhGBG i gwestiynau gan Aelodau a rhoddodd grynodeb o weithrediad hyd yma fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Penderfynodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth Oedolion a Busnes i ganolbwyntio'r gwasanaeth yn barhaol yn

Hafan Deg yn y Rhyl mewn adeilad sydd wedi ei adeiladu’n bwrpasol ar gyfer darparu gwasanaethau dydd ac sy’n cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Roedd manylion anghenion unigolion sy'n mynychu gwasanaethau dydd yng Ngogledd y Sir wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad, a rhoddwyd cadarnhad nad oedd unrhyw fwriad i leihau'r gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol.

Ochr yn ochr â'r trefniadau a amlinellwyd yn yr adroddiad, amlygwyd gwaith sy’n mynd rhagddo i ddatblygu cyfleoedd ymhellach i gael gweithgareddau dydd ystyrlon yn y gymuned yng Ngogledd Sir Ddinbych, ac roedd y rhain yn cynnwys manylion darpariaeth gwasanaeth yn Nant y Môr, Prestatyn. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi ffigurau staffio a defnydd sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth.

Dywedodd y RhGBG wrth yr Aelodau oherwydd llifogydd yn Uned Ddydd Llys Nant ym Mhrestatyn roedd holl ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn mynychu’r Ganolfan honno wedi eu trosglwyddo i Hafan Deg yn Y Rhyl. Er gwaethaf y cynnwrf o orfod teithio ychydig ymhellach ni fu unrhyw gwynion gan y defnyddwyr gwasanaeth na’u teuluoedd ac roedd staff Hafan Deg a Llys Nant yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Nid oedd unrhyw gynlluniau i symud yn ôl i Lys Nant unwaith y byddai’n bosibl byw yn yr adeilad, fodd bynnag roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda gweithredwyr cyfleuster Gofal Ychwanegol Nant y Môr gyda'r bwriad o gwsmeriaid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael mynediad i wasanaethau yn y Ganolfan honno.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J M Davies, eglurodd y RhGBG fod yr adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi nodi eu bod yn hapus gyda’r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd.

Cafwyd cadarnhad ei bod yn rhy fuan ar hyn o bryd i adrodd ar effeithiolrwydd y gwasanaeth Ailalluogi gan ei fod yn dal yn wasanaeth sy’n dal i ddysgu. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, roedd yr Aelodau yn cefnogi’r argymhellion yn yr adroddiad a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad gwybodaeth pellach yn dilyn cyfnod o 12 mis.

***PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor yn:-*

*(a) derbyn yr adroddiad ac yn cefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd i symud y gwasanaeth yn ei flaen yn gyson gyda’r egwyddor o gefnogi dinasyddion Sir Ddinbych i aros mor annibynnol ag y bo modd am gyhyd ag y bo modd.*
*(b) bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen deuddeng mis i werthuso effeithiolrwydd y Gwasanaeth Ailalluogi wrth gyflawni'r weledigaeth uchod a gwireddu effeithlonrwydd i’r Cyngor.*

## 7 GRŴP TASG A GORFFEN ADOLYGU BWYD

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PCGC), a oedd yn rhoi adroddiad diweddaru a chynnydd ar yr adolygiad bwyd a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod o fewn y tri mis diwethaf i adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion a oedd wedi eu llunio'r llynedd ar waith. Roedd y Swyddogion yn manylu'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Gwasanaeth Caffael gyda'r bwriad o gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd a diogelwch bwyd mewn sefydliadau bwyd ar draws y Sir, ynghyd â'r prosesau caffael ar gyfer bwyd i sefydliadau'r awdurdod lleol a rheoli contract a gweithdrefnau monitro ar gyfer contractau caffael bwyd y Cyngor.

Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi archwilio gwasanaeth bwyd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013, ond parheir i aros am eu hadroddiad terfynol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau rhoddwyd sicrwydd bod cynnyrch bwyd Cymreig/Prydeinig, gan gynnwys cig yn cael eu caffael lle bynnag y bo modd, er bod hyn yn cynyddu'r gost. Hysbyswyd yr aelodau hefyd bod swyddogion yn ogystal ag arolygu allfeydd bwyd yn archwilio manwerthwyr alcohol i wirio am alcohol anghyfreithlon a blasu cynnwys a chryfder yr alcohol ar werth a sicrhau bod alcohol a sigaréts wedi bod yn destun dyletswydd Tollau a Chartref.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion wedi cael gwybod am sbeisys a allai fod yn beryglus a oedd yn cael eu gwerthu mewn rhai rhannau o'r DU. Dywedodd y swyddogion nad oedd yr un o'r rhybuddion rheolaidd oeddent wedi eu derbyn yn ymwneud â sbeisys, byddai'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn gwneud ymholiadau mewn perthynas â'r mater ac yn adrodd yn ôl i Aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch ag a oedd dogn prydau ysgol yn ddigonol i'r disgyblion, dywedodd y swyddogion bod dognau'n cydymffurfio â pholisi prydau ysgol Lywodraeth Cymru 'Blas am Oes'. Eglurwyd hefyd bod y Gwasanaethau Arlwyo wedi rhewi pris prydau ysgol am y bumed flwyddyn yn olynol. Canmolodd yr Aelodau'r Gwasanaethau ar eu gwaith ar y cyd wrth weithredu argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ac yn dilyn trafodaeth bellach: -

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor yn:-*

*(a) nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion.*
*(b) yn cymeradwyo ansawdd prydau ysgol ar draws y Sir, ond i gofrestru pryderon am y maint dogn bach, ac yn*
*(c) cytuno bod adroddiad cynnydd arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen deuddeng mis yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda hylendid bwyd a chydymffurfio â safonau bwyd, a chyda gweithdrefnau monitro a chaffael bwyd y Sir.*

## 8 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a oedd yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran rhwydwaith ffyrdd y Sir ac yn disgrifio sut y byddai'r cyflwr yn cael ei reoli yn y dyfodol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y PPGA yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwaith cynnal a chadw adweithiol ac ataliol ar rwydwaith ffyrdd y Sir. Yr

adroddiad oedd y cam nesaf yn dilyn trafodaeth gydag Aelodau mewn cyfarfod o’r Gweithgor strategaeth ar 10 Hydref 2013 yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf 2013.

Amlygwyd pwysigrwydd asesu a gwerthuso’r manteision sy'n deillio o'r buddsoddiad sylweddol i wella cyflwr y ffordd yn iawn. Roedd y ddau ddull ar gyfer gwneud hyn yn cynnwys y data Sganiwr, a gynhyrchodd y Dangosydd Perfformiad, a'r Dangosydd Cyflwr Ffyrdd (DCFf). Roedd manylion pob un o'r prosesau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd Atodiad A yn manylu perfformiad cyffredinol Sir Ddinbych o ran allbwn Sganiwr ac, ar gyfer cyd-destun, yn cynnwys safle cymharol y Sir o ran y 'Grŵp Teulu'. Roedd hefyd yn dangos gwelliant parhaus yn y DCFf, ymddangosiad gweledol y ffordd. Nododd yr Aelodau bod gwelliannau wedi'u gwneud a'u cynnal.

Ers nodi ffyrdd fel blaenoriaeth ar gyfer 2009/10 roedd Sir Ddinbych wedi buddsoddi dros £18miliwn ac roedd manylion y dyraniad cyllid wedi’i grynhoi yn yr adroddiad. Eglurwyd y byddai cytundeb y Rhaglen Gyfalaf i gynnal y rhwydwaith yn briodol yn hollbwysig, ac roedd yr adroddiad yn archwilio senarios i reoli asedau i liniaru'r risgiau. Roedd pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithio gydag ymgynghorwyr i adeiladu ar arfer gorau. Roedd Atodiad B yn darparu ystod o ffyrdd tebygol a'r mwyaf darbodus i reoli'r risg. Roedd Cod Ymarfer yn caniatáu ar gyfer amrywiad yn y gyfundrefn a byddai Sir Ddinbych angen cytuno ar yr hyn y dylai'r drefn fod o ran rhwydwaith blaenoriaethu a sut y dylai'r Awdurdod Priffyrdd ei reoli. Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft o sut y gall y rhwydwaith gael ei flaenoriaethu a phwysleisiwyd pwysigrwydd ymgynghori.

Ers y Ddeddf Priffyrdd 1980, roedd cyfraith achosion wedi egluro rhai pwyntiau sy’n ymwneud ag amlder archwiliadau priffyrdd, diffiniad o 'ddiffyg' a faint o amser y gallai priffordd gael ei gadael heb ei hatgyweirio. Fodd bynnag, roedd yna dal rywfaint o hyblygrwydd a byddai angen diffiniad o lefel LLEIAF cynnal a chadw Sir Ddinbych. Roedd Atodiad D yn cynnig rhai cynigion fyddai angen trafodaeth cyn cytuno ar Bolisi Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Eglurodd swyddogion ei fod yn galonogol adrodd bod perfformiad y Sir yn gwella, yn enwedig yn erbyn cefndir o doriadau mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau gyda Menter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLlL) yn dod i ben ym mis Mawrth, 2015 roedd yna benderfyniadau anodd angen eu gwneud o ran buddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd yn y dyfodol. Byddai angen gwario adnoddau prin yn ddoeth ac mewn ffordd wedi'i thargedu. Oni bai fod hyn yn cael ei wneud byddai cyflwr y ffyrdd yn dirywio yn gyflym iawn.

Tynnwyd sylw at yr angen i archwilio dosbarthiad rhai llwybrau yn y dyfodol. Byddai Gweithdy Aelodau yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o ddiffinio proses flaenoriaethu cynnal a chadw priffyrdd ac esbonio a deall egwyddorion cynnal a chadw ffyrdd. Cadarnhaodd y PPGA y byddai cael proses flaenoriaethu cynnal a chadw ffyrdd a ddiffiniwyd yn dda yn lleihau'r risg o hawliadau ymgyfreitha llwyddiannus yn erbyn yr Awdurdod. Eglurodd hefyd y dylai polisi cynnal a chadw ffyrdd strwythuredig gwell, a fyddai'n cynnwys proses flaenoriaethu wedi’i diffinio'n glir, sylweddoli gwerth am arian o'r buddsoddiad a lleihau gwariant diangen. Darparwyd ymatebion

gan y swyddogion i gwestiynau'r Aelodau yn ymwneud â'r cynnig a materion o fewn eu hardaloedd eu hunain.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn amodol ar yr esboniadau uchod, yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gwella'r rhwydwaith priffyrdd ar draws y Sir.*
*(b) yn derbyn yr egwyddorion o broses flaenoriaethu cynnal a chadw priffyrdd, a*
*(c) chytuno y byddai cynnal gweithdai pellach yn fuddiol gyda golwg ar ddatblygu strategaeth glir ar gyfer rhwydwaith ffyrdd y Sir a phroses blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw priffyrdd wedi'i diffinio'n dda.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

11 Medi 2014:-

Cytunodd yr Aelodau i eitem fusnes sy'n ymwneud â "Thrwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth", y cyfeirir ati yn y briff gwybodaeth, gael ei chynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Medi, 2014. Cytunodd y Pwyllgor bod y Cynghorwyr H H Evans a D I Smith, yn y drefn honno, yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod fel Aelodau Arweiniol.

Dywedodd y Cydlynydd Archwilio wrth y Pwyllgor y gallai Aelodau anfon awgrymiadau i'w cynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Hydref 2014 ati hi. Eglurodd y CD: ECA efallai y dymuna'r Aelodau ystyried yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor, a oedd yn tynnu sylw at yr ymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol, wrth nodi materion i'w cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i fod i gynnal ei gyfarfod cyntaf y flwyddyn ddinesig newydd ar 3 Gorffennaf 2014.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar y newidiadau a chytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dywedodd y Cynghorydd J. Welch ei fod ef a'r Cadeirydd, y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn ddiweddar. Rhoddodd y Cynghorydd Welch adroddiad byr a chadarnhaol ar drafodion y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD –****fod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 13.50pm.